# Deddf Rhentu Cartrefi (Cymru) 2016

**2016 dccc 1**

## RHAN 11

DARPARIAETHAU TERFYNOL

*Dehongli'r Ddeddf*

### 243 Awdurdodau lleol ac awdurdodau eraill

(1) Mae'r adran hon yn gymwys at ddibenion dehongli'r Ddeddf hon.

(2) Mae'r canlynol yn awdurdodau lleol—

(a) cyngor sir ar gyfer ardal yng Nghymru,

(b) cyngor bwrdeistref sirol, ac

(c) comisiynydd heddlu a throseddu ar gyfer ardal heddlu yng Nghymru.

(3) Ystyr "awdurdod tai lleol" (ac eithrio ym mharagraff **[**[F1] 10A a pharagraff**]** 12 o Atodlen 2) yw cyngor sir ar gyfer ardal yng Nghymru neu gyngor bwrdeistref sirol.

(4) Ystyr "ymddiriedolaeth gweithredu tai" yw ymddiriedolaeth gweithredu tai a sefydlwyd o dan Ran 3 o Ddeddf Tai 1988 (p. 50) ac mae'n cynnwys unrhyw gorff a sefydlwyd o dan adran 88 o'r Ddeddf honno.

(5) Mae i "corfforaeth dref newydd" yr un ystyr â "new town corporation" yn Neddf Tai 1985 (p. 68) (gweler adran 4 o'r Ddeddf honno).

(6) Ystyr "corfforaeth datblygu trefol" yw corfforaeth datblygu trefol a sefydlwyd o dan Ran 16 o Ddeddf Llywodraeth Leol, Cynllunio a Thir 1980 (p. 65) ac mae'n cynnwys unrhyw gorff a sefydlwyd o dan adran 165B o'r Ddeddf honno.

**Diwygiadau Testunol**

**F1** Geiriau yn a. 243(3) wedi eu mewnosod (30.11.2023) gan Rheoliadau Deddf Rhentu Cartrefi (Cymru) 2016 a Gorchymyn Digartrefedd (Addasrwydd Llety) (Cymru) 2015 (Diwygio) 2023 (O.S. 2023/1277), rhlau. 1(1), **2(3)**

***Newidiadau i ddeddfwriaeth:*** *Deddf Rhentu Cartrefi (Cymru) 2016, Adran 243 yn gyfredol gyda'r holl newidiadau y gwyddys eu bod mewn grym ar neu cyn 08 Awst 2024. Mae newidiadau a all gael eu dwyn i rym yn y dyfodol. Mae newidiadau a wnaed yn ymddangos yn y cynnwys a chyfeirir atynt trwy anodiadau. (See end of Document for details) View outstanding changes*

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I1** A. 243 mewn grym ar 19.1.2016, gweler **a. 257(1)**

**Newidiadau i ddeddfwriaeth:**
Deddf Rhentu Cartrefi (Cymru) 2016, Adran 243 yn gyfredol gyda'r holl newidiadau y gwyddys eu bod mewn grym ar neu cyn 08 Awst 2024. Mae newidiadau a all gael eu dwyn i rym yn y dyfodol. Mae newidiadau a wnaed yn ymddangos yn y cynnwys a chyfeirir atynt trwy anodiadau.
View outstanding changes

**Changes and effects yet to be applied to :**

- specified provision(s) savings for amendments by 2018 anaw 1, s. 6, Sch. 6 by S.I. 2019/110 reg. 5

**Changes and effects yet to be applied to the whole Act associated Parts and Chapters:**
Whole provisions yet to be inserted into this Act (including any effects on those provisions):

- s. 20(3)(ma) inserted by 2019 anaw 2 Sch. 3 para. 4(2)
- s. 135(2)(ia) inserted by 2019 anaw 2 Sch. 3 para. 4(3)
- s. 186A-186C inserted by 2019 anaw 2 Sch. 3 para. 4(1)
- s. 198A inserted by 2019 anaw 2 Sch. 3 para. 5